# GWAHODDIAD I DENDRO (GID)
# GWERTHUSO TROED YN Y DRWS (CASNEWYDD)
# RHAGLEN HYFFORDDI'R SECTOR SGRÎN

**11eg Chwefror 2022**

Un o amcanion allweddol Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU (UKCRF) yw ceisio cynnig ffyrdd newydd o gyflwyno gweithgaredd i fusnesau a phobl. Mae'n bwysig bod ein rhaglen Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU 'Troed yn y Drws' (TyyD) yn cael ei gwerthuso'n gadarn a bod yr hyn a ddysgir yn cael ei rannu ag eraill.

## YNGLŶN Â FFILM CYMRU WALES

Ffilm Cymru (FFCW) yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilm o Gymru ac mae wedi ymrwymo i hyrwyddo sector ffyniannus y gallwn oll fod yn falch ohono. Gwnawn hyn drwy:

- Weithio gyda phartneriaid i ddatblygu statws ffilm yng Nghymru a thu hwnt
- Greu amgylchedd sy'n caniatau i ddulliau mwy cynhwysol, arloesol a gwyrdd o weithio gael eu profi, eu hintegreiddio a'u rhannu
- Ddenu pobl o bob oed a gallu i ddysgu'n greadigol
- Ddatblygu gweithlu sgrîn ar gyfer y dyfodol drwy ystod o raglenni hyfforddi
- Fuddsoddi mewn ffilmiau nodedig a ffilmiau sy'n cymryd risg, yn ogystal â'r bobl sy'n eu gwneud, yn gynnar yn y broses
- Gynnig profiadau sinematig cyffrous i gynulleidfaoedd ledled Cymru

Rydym yn rheoli arian y loteri genedlaethol ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Sefydliad Ffilm Prydeinig, yn ogystal â chynhyrchu a rheoli cyllid pellach fel yr UKCRF. Mae ein gwaith hefyd yn cyd-fynd yn agos â Rhaglen Llywodraeth Cymru, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), oherwydd natur amrywiol creadigol, economaidd a diwylliannol ein sector.

Sefydlwyd Ffilm Cymru yn 2006 ac mae'n Gwmni Buddiannau Cymunedol. Gellir darllen ein Cynllun Strategol 2018 -2024 yma, lle gallwch weld bod ymdriniaeth gynhwysol yn plethu trwy ein gwaith drwyddi draw.

## YNGLŶN Â TROED YN Y DRWS (CASNEWYDD)

Mae Troed yn y Drws, Casnewydd yn rhaglen hyfforddi Teledu a Ffilm gynhwysol, sy'n cydweithio â diwydiant, cymunedau a sefydliadau ar lawr gwlad i ddatblygu llwybrau cynaliadwy i'r sector sgrîn yng Nghymru. Mae'r prosiect hwn yn rhan o brif weithgaredd Ffilm Cymru Wales Troed yn y Drws sy'n canolbwyntio'n benodol ar gefnogi'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, ac ar y manteision ddaw o ddarganfod a datblygu sgiliau trosglwyddadwy sy'n berthnasol i'r diwydiannau creadigol. Nodwedd hollbwysig o'r rhaglen hon, a ariennir gan UKCRF, yw ceisio datblygu model y gellir ei ddyblygu a'i gymharu ag eraill ac sy'n cynnwys llwybr clir ar gyfer recriwtio, mewn partneriaeth ag Addysg Bellach a Chymdeithasau Tai. Mae'r rhaglen yn ceisio dod â'r diwydiant a chymunedau ynghyd i gyd-ddylunio a datblygu ymwybyddiaeth o sgiliau sgrîn, gweithgaredd hyfforddi a chyfleoedd cyflogaeth gyda'r sector sgrîn sy'n berthnasol i bawb.
Bydd Troed yn y Drws, dan arweiniad Ffilm Cymru Wales, yn gweithio gyda nifer o bartneriaid er mwyn datblygu sgiliau trwy gynnig gweithdai blasu, cyrsiau hyfforddi, lleoliadau i brentisiaid a thrwy gynnig cyfleoedd gwaith sy'n canolbwyntio ar y Diwydiant Ffilm a Theledu.

Yn seiliedig ar yr hyn rydym wedi ei ddarparu, ei ddysgu a'i werthuso o'r blaen yng nghyd-destun rhaglen Troed yn y Drws, y nod cyffredinol yw cydweithio â chymunedau, partneriaid yn y diwydiant a darparwyr hyfforddiant i gyflwyno cyfres o allbynnau a chanlyniadau sy'n arwain at amrywiaeth o fanteision i'r rhai sy'n byw yng Nghasnewydd. Bydd y prosiect yn darparu'r cyfleoedd yma i 300 o bobl mewn lleoliadau cymunedol yng Nghasnewydd, trwy drefnu lleoliadau i brentisiaid yn y sector sgrîn Gymraeg sy'n tyfu, a thrwy greu llwybrau i gyflogaeth i'r rhai sy'n byw yng Nghasnewydd. Bydd hefyd yn galluogi'r partneriaid i brofi dull yr ydym yn gobeithio y gellir ei drosglwyddo ar draws awdurdodau lleol, gan gynnwys datblygu modd i olrhain taith y cyfranogwyr tuag at penllanw'r prosiect, a datblygu arferion gwaith gweithwyr proffesiynol o fewn y diwydiant. I gael rhagor o wybodaeth am gynlluniau cyflwyno'r prosiectau, Egwyddorion Troed yn y Drws a sut rydym yn bwriadu mynd ati, darllenwch Atodiad 1. Beth yw Troed yn y Drws (Casnewydd).

## PWY YW'R PARTNERIAID?

Mae Ffilm Cymru yn cyflwyno'r rhaglen hon am y tro cyntaf ar y cyd ag amrywiaeth gwerthfawr o bartneriaid:
Cynghrair Sgrîn Cymru, Sgil Cymru, Cult Cymru, Cyngor Casnewydd, Coleg Gwent, Tai Pobl ac amrediad o sefydliadau cymunedol ar lawr gwlad (bydd rhestr yn cael ei darparu). Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd yn ein cefnogi. Dyma'r tro cyntaf i bartneriaid gydweithio i gyd-ddylunio a darganfod atebion ar gyfer gwella tegwch a mynediad i ddiwydiant. Rydym yn rhagweld y bydd yr holl bartneriaid yn cael eu cyfweld ac y bydd hyn yn werthfawr o ran cyfrannu at werthuso'r rhaglen.

## CEFNDIR

Mae ein rhaglen Troed yn y Drws, a sefydlwyd yn 2016, yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Cymdeithasau Tai, awdurdodau lleol a chanolfannau gwaith, i gysylltu pobl sydd â diddordeb mewn archwilio llwybrau i sicrhau gyrfa yn y Diwydiant Sgrîn yng Nghymru, ond nad ydynt, efallai, yn ystyried y byddai hynny'n bosib. Rydym yn gwneud hyn drwy:

- Gynnig gwybodaeth am y diwydiant a'r cyfleoedd sydd ar gael;
- Gysylltu rhwydweithiau ac amlygu cyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd o bob math;
- Drefnu gweithdai blasu;
- Ddarparu hyfforddiant anwytho (gan gynnwys sut i ymddwyn ar set ac iechyd a diogelwch);
- Ddarparu lleoliadau i brentisiaid mewn Ffilm a Theledu mewn amrediad o adrannau;
- Greu cyfleoedd i sicrhau swyddi yn y diwydiannau sgrîn sy'n cynnwys cefnogaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a gofal bugeiliol i'r rhai sy'n derbyn hyfforddiant.

Rydym yn gweithio gyda chymunedau i ganfod a chreu cyfleoedd yn lleol ac i hysbysu pobl y gallant ddefnyddio'r sgiliau a'r profiad sydd ganddynt eisoes, er enghraifft mewn arlwyo, gwaith coed, gwneud modelau, gwisgoedd, gwallt a cholur, ar setiau ffilm a theledu'r cynyrchiadau sy'n cael eu gwneud yng Nghymru. Ategir hyn trwy ddatblygu cynlluniau gyrfa gyda chyfranogwyr a allai, er enghraifft, adnabod cyfleoedd mewn addysg uwch, hyfforddiant, rhwydweithiau a strategaethau swyddi sydd wedi'u teilwra ar eu cyfer.

Mae ein rhaglen yn canolbwyntio ar wella cynhwysiant economaidd fel llwybr i gyfranogiad ehangach yn y sector. Mae Troed yn y Drws yn cynnig cymorth bugeiliol cyflawn i bawb sy'n cael eu hyfforddi, gan gynnwys bwrsariaethau ar gyfer teithio a gofal plant, offer, ac arian ar gyfer hyfforddiant mewn meysydd technegol, ond hefyd mewn meysydd fel Ysgrifennu CV a chymorth busnes. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant i ddeall eu hanghenion nhw ac yn cefnogi sefydliadau i ddatblygu arferion cynhwysol pellach.


UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru
NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Mae ein prentisiaid wedi sicrhau lleoliadau gwaith ar nifer o gynyrchiadau sy'n cael eu ffilmio yng Nghymru, gan gynnwys Apostle, Denmark, Keeping Faith, Un Bore Mercher (S4C/BBC/VOX), Dream Horse, The Tuckers, Eternal Beauty, War of the Worlds, Save the Cinema (SKY) a Willow (Lucas Films Productions).

## CRONFA ADNEWYDDU CYMUNEDOL Y DU.

Rhaglen Llywodraeth y DU yw Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU ar gyfer 2021/22. Nod y rhaglen yw cefnogi'r bobl a'r cymunedau mwyaf anghenus ledled y DU i dreialu rhaglenni a dulliau newydd o weithio i baratoi ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Mae'n buddsoddi mewn sgiliau, cymunedau a llefydd, mewn busnesau lleol, ac yn cefnogi pobl er mwyn iddynt sicrhau cyflogaeth.

Am ragor o wybodaeth ewch i https://www.gov.uk/government/publications/uk-community-renewal-fund-prospectus

## CYFLWYNIAD

Mae hwn yn wahoddiad i dendro ar gyfer gwerthuso rhaglen Troed yn y Drws, rhaglen hyfforddi a datblygu ar-lein ac wyneb yn wyneb a ariennir drwy Gyngor Dinas Casnewydd a Chronfa Adnewyddu Cymunedol Llywodraeth y DU.
Er gwybodaeth, cyfeirir at y sector Sgrîn yn y fan yma fel y sectorau sy'n cynnwys;

- Ffilm
- Teledu a chynhyrchu (Y Cyfan)
- Teledu uchelgeisiol, nodedig
- Ôl-gynhyrchu
- Sefydliadau adnoddau

Rhaid i ymatebion i'r tendr hwn nodi'n glir sut y mae modd mynd i'r afael â holl ofynion y brîff hwn a dylent gynnwys:

- Manylion yr allbynnau allweddol a sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r prosiect er mwyn gwerthuso'r rhaglen yn effeithiol, gan gynnwys ei effaith a'i botensial i ehangu y tu hwnt i'r peilot
- Sut yr ydych yn bwriadu cyflawni'r gwaith gan nodi sut y byddwch yn gwireddu amcanion cyffredinol y prosiect tra'n sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel, o fewn yr amserlen
- Cynllun gwaith manwl gyda cherrig milltir clir yn disgrifio pob unigolyn sy'n ymwneud â'r prosiect
- Datganiad o'r trefniadau gwaith a phwy fydd yn rhan o dîm rheoli'r prosiect (gan gynnwys CVs neu fywgraffiadau o'u gwaith)

## CEFNDIR Y PROSIECT

Amcanion Troed yn y Drws (Casnewydd) yw:

- Cyflawni cyfres o allbynnau a chanlyniadau y cytunwyd arnynt gyda'r diwydiant a'r darparwyr hyfforddiant gan weithio ar y cyd â phartneriaid cymunedol (Gweler Atodiad 1) rhwng Tachwedd 2021 - Mehefin 30ain, 2022
- Adrodd yn fisol i Gyngor Casnewydd sy'n rheoli'r gronfa hon ar ran Llywodraeth y DU
- Sicrhau 20 o leoedd cyflogaeth i gyfranogwyr yng Nghasnewydd i weithio ym myd Teledu a Ffilm
- Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu manwl, a drefnwyd o flaen llaw, ar gyfer 50 o gyfranogwyr yng Nghasnewydd

- Codi ymwybyddiaeth o yrfaoedd ym myd Ffilm a Theledu a chael gwared ar y 'dirgelwch' sy'n perthyn i'r swyddogaethau a'r llwybrau sy'n bodoli i mewn i'r sector trwy ddarparu sesiynau blasu a gweithdai ar gyfer 230 o gyfranogwyr o gymunedau Casnewydd
- Cyrraedd pobl sydd â sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer swyddogaethau oddi mewn i'r sector sgrîn yng Nghymru
- Cyrraedd trawstoriad eang o unigolion yng Nghasnewydd drwy ymgyrch Farchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus Troed yn y Drws
- Cyd-weithio i fynd i'r afael â materion sectoraidd sy'n ymwneud â chynhwysiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth gan ddysgu sut y gallwn gefnogi'r diwydiant i fod yn ymarferol hygyrch a chynhwysol
- Sicrhau bod cymunedau yn cyd-ddylunio a datblygu'r gweithgaredd
- Sicrhau bod partneriaid yn y diwydiant yn cyd-ddylunio a datblygu gweithgaredd
- Darparu 'siarter mynediad teg' i'w ddatblygu ar y cyd gan y diwydiant a'r cymunedau
- Cynnal digwyddiad er mwyn rhannu gwybodaeth yn ystyrlon
- Datblygu dealltwriaeth glir o gynaliadwyedd a sut i raddio TyyD
- Ennyn gwybodaeth a dysgu o'r rhaglen beilot gan gasglu argymhellion clir ar sut y gellir datblygu Troed yn y Drws fel consortiwm, dros dair blynedd i ddechrau, er mwyn cyflwyno'r rhaglen ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Mae gweithgareddau'r rhaglen yn cynnwys:
- Digwyddiadau dosbarth meistr sy'n ymwneud â swyddogaethau crefft ym myd ffilm a theledu
- Sgyrsiau cymunedol
- Gweithdai 'blasu' ar swyddogaethau crefft
- Digwyddiadau wedi eu harwain gan y diwydiant
- Gweithdai unigol
- Ymweliadau â setiau
- Gweithdai ar gynhyrchu
- Digwyddiad graddfa fawr ar gyfer rhannu gwybodaeth (Mehefin 2022)
- Gweithdai wedi eu dylunio a'i datblygu ar y cyd er mwyn deall prosesau'r diwydiant, y partneriaid cymunedol a'r prentisiaid – wedi eu hyrwyddo gan PDR
- Dylunio prospectws ar gyfer y diwydiant

## AMCANION

Bydd y gwerthusiad yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd rhaglen beilot Troed yn y Drws yng Nghasnewydd a'r cyfleoedd a gynigiwyd, ac yn amlygu heriau cysylltiedig yn erbyn mesurau meintiol ac ansoddol. Rydym yn rhagweld y bydd rhan o'r gwerthusiad hwn yn defnyddio model 'Damcaniaeth Newid' ac yn ein cynorthwyo I ddeall:

a) Pa mor effeithiol yw'r dull 4ewydd hwn o gynllunio a datblygu hyfforddiant ar y cyd â phartneriaid yn y diwydiant ac yn y cymunedau
b) Effeithiolrwydd y rhaglen o ran ymgysylltu â phartneriaid
c) Pa mor debygol y bydd hi I drosglwyddo'r dull hwn a'I ehangu er mwyn darparu atebion cynaliadwy ar gyfer cynhwysiant a chynyddu'r gweithlu yn y sector sgrîn yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol

Rydym yn rhagweld y bydd y gwerthusiad yn cynnwys cyfweliadau lled-strwythuredig gyda busnesau, cymunedau, cyfranogwyr, a'r rheiny sydd wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant. Hoffai Ffilm Cymru ddeall mwy am yr effaith y mae'r hyfforddiant wedi'i gael ar yr unigolion yma gan ystyried mesurau 'meddalach' fel hyder, llesiant ac ymdeimlad o berthyn sydd, yn ein barn ni, yn hanfodol i gynnal gyrfaoedd yn y sector sgrîn, yn ogystal â chanlyniadau 'caled' fel sydd wedi'u nodi yn y cais.

Y cwestiynau gwerthuso allweddol yw:

- Pa mor effeithiol oedd y broses o ddatblygu ar y cyd ar gyfer dylunio a chyflwyno hyfforddiant ar gyfer y sector sgrîn?
- Pa mor effeithiol, yn ymarferol, oedd y ddarpariaeth hyfforddi gan ddarparwyr hyfforddiant y diwydiant a’r partneriaid?
- I ba raddau oedd amgylchedd o gydweithio a chyd-ddylunio o werth i'r prosiect?
- A gyrhaeddodd y peilot ystod eang o fusnesau ac unigolion ledled Casnewydd?
- I ba raddau bu cydlynu llwyddiannus gyda’r sefydliadau a’r seilwaith bresennol yn ardal Casnewydd?
- A oedd y cynnwys a ddysgwyd yn berthnasol i waith a sgiliau’r sector sgrîn? A oedd modd adnabod unrhyw hyfforddiant pellach neu uchelgais gyrfa cyffredinol?
- Pa fath o alw oedd ar gael am wahanol weithgareddau hyfforddi a datblygu, a sut mae hynny'n berthnasol i feysydd lle mae prinder sgiliau’n bodoli yn y diwydiant?
- A gafodd y peilot ei gydnabod fel profiad gwerthfawr, a sut mae partneriaid yn gweld y gellid cynyddu a datblygu hyn yn y dyfodol?
- I ba raddau y gellir ehangu'r rhaglen hon a'i gwneud yn gynaliadwy dros y tair blynedd nesaf?

Nid ydym yn cael ein cyfyngu gan y cwestiynau hyn ac rydym yn barod i drafod, fodd bynnag, rydym wedi eu gosod fel hyn er mwyn dangos yr hyn sy’n flaenoriaeth gennym. Gofynnwn i werthuswyr nodi sut y byddant yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn yn eu cynigion.

## METHODOLEG

Mae Ffilm Cymru Wales yn rhagweld y byddwn yn defnyddio sawl dull gwahanol i benderfynu ar effaith yr elfen yma o’r prosiect. Rydym yn dychmygu y bydd y broses yn cynnwys ymchwil-desg sy'n tynnu ar yr holl ddata a gasglwyd a’r wybodaeth sydd wedi ei monitro, sydd ar gael gan Troed yn y Drws. Rydym yn rhagweld data ymchwil ansoddol sylfaenol gyda sefydliadau ac unigolion a allai gynnwys cyfweliadau wyneb yn wyneb a / neu dros y ffôn. Rydym hefyd yn awyddus i gynnwys elfen o waith ymchwil arsylwadol ac ethnograffig ar weithgaredd Troed yn y Drws gan gynnwys hyfforddiant (ar-lein ac wyneb yn wyneb), gweithdai, diwrnodau recriwtio a lleoliadau ar-set. Bydd cyfweliadau neu sgyrsiau â grwpiau ffocws gyda thîm prosiect Ffilm Cymru a Chyngor Dinas Casnewydd hefyd yn hanfodol.

Dylai pob dull gweithredu gael eu nodi'n glir yn y cyflwyniadau tendro.

## ALLBYNNAU

Yr allbynnau ar gyfer y gwerthusiad hwn fydd:

- Adroddiad terfynol annibynnol, y cytunir ar ei fformat unwaith y dyfernir y cytundeb ar 23ain Mehefin, 2022 (gydag adroddiad amlinellol o ddrafft yn ystod wythnos gyntaf mis Mehefin)
- Adroddiad dros dro (diwedd Mawrth 22) gyda fframwaith ar gyfer y gwerthuso a datblygiad o’r ddamcaniaeth newid
- Atodiad o ddata / tablau o unrhyw arolygon neu gyfweliadau a gynhaliwyd
- Cyflwyniad o ganfyddiadau ac argymhellion yn ein digwyddiad a gynhelir i rannu gwybodaeth ar 17eg Mehefin 2022 yng Nghasnewydd

## RHEOLI PROSIECT

Faye Hannah, Pennaeth Sgiliau & Hyfforddi Ffilm Cymru Wales fydd yn rheoli’r gwerthusiad hwn.

Os nad yw’r cynigion ymchwil a gyflwynir yn bodloni manyleb y tendr, rydym yn cadw'r hawl i dynnu'r tendr yn ôl.

## PRISIAU A CHOSTAU

Bydd cost y prosiect yn sefydlog, gan gynnwys TAW a gwariant, a dylid ei rannu i'r penawdau canlynol ar gyfer pob elfen o'r tendr:

- Nifer y dyddiau a chostau arfaethedig bob diwrnod
- Cost unrhyw ddeunyddiau, teithio a chynhaliaeth
- Costau eraill fel bo'n briodol

Yn yr achos hwn yr uchafswm sydd ar gael i sefydliadau dendro amdano yw:
**£40,000 yn cynnwys TAW**

Bydd y taliad yn cael ei gytuno ymlaen llaw ac yn ddibynnol ar gyflawni'r cerrig milltir allweddol, yn unol â chynllun prosiect pwrpasol y cytunwyd arno.

Dylai'r holl waith a'r costau anfonebu cysylltiedig fod yn ddigon manwl ar gyfer proses hawlio UKCRF, fel sy'n ofynnol fel rhan o'r prosiect a ariennir drwy Gyngor Sir Casnewydd. Bydd manylion yr hyn a ddisgwylir yn cael eu darparu yng nghyfarfod cychwynnol prosiect y tendr llwyddiannus.

## PROFIAD A PHERSONÉL HANFODOL

Rydym yn croesawu cynigion annibynnol a chydweithredol gan unigolion a sefydliadau all ddangos y proffil / profiad canlynol:

- Ymchwil meintiol ac ansoddol
- Profiad o gynnal gwaith ymchwil a gwerthuso yng nghyd-destun sector sgrîn Cymru, gan gynnwys ymchwil galwedigaethol ac addysgol ym meysydd y sectorau creadigol a diwylliannol
- Gwybodaeth am y diwydiannau creadigol a diwylliannol yng Nghymru
- Y gallu i gyflwyno canfyddiadau ymchwil yn ddealladwy i gynulleidfa eang ac amrywiol
- Profiad amlwg o ymchwil-desg ac o ysgrifennu adroddiadau
- Y gallu i ddehongli a dadansoddi data a'i gyflwyno ar ffurf adroddiad addas
- Y gallu i weithio yn unol â'r amserlen a nodir (gweler yr adran berthnasol)
- Ymrwymiad i amrywiaeth a chydraddoldeb
- Ymrwymiad i weithio yn Gymraeg yng Nghymru

Dylid cynnwys CVs i bawb sydd ynghlwm â'r prosiect.

## AMSEROEDD

Ychydig iawn o hyblygrwydd sydd i'r amseru gan fod yn rhaid i'r elfen hon o brosiect UKCRF gael ei chwblhau erbyn 24ain Mehefin 2022. Ni fydd unrhyw bosibilrwydd i gael estyniad.

Derbyn y cynigion: 3 Mawrth 2022
Cyfweliadau posib: 28ain Chwefror
Penodi & Cychwyn arni: 04ydd Mawrth
Amlinelliad o'r 'Damcaniaeth Newid' a'r fframwaith gwerthuso: wythnos yn dechrau 21ain Mawrth
Adroddiad byr dros dro: 31ain Mawrth
Cyflwyno drafft o'r Adroddiad: 06ed Mehefin 2022
Cyflwyno'r Gwerthusiad: 17eg Mehefin 2022
Cyflwyno'r Adroddiad Terfynol: 24ain Mehefin 2022

## CYFLWYNO

Ni ddylai cyflwyniadau tendr fod yn hirach na 10 tudalen. Cwblhewch a dychwelwch eich ymateb erbyn **3 Mawrth 2022** am Hanner Dydd fan bellaf. Gofynnir i gontractwyr gyflwyno fersiwn electronig o'u tendr. Dylid marcio tendrau gorffenedig at sylw Faye Hannah, Pennaeth Sgiliau a Hyfforddiant:

faye@ffilmcymruwales.com
Ffilm Cymru Wales
6 Tramshed Tech,
Stryd Pendyris
Caerdydd
CF11 6BH

## GWYBODAETH YCHWANEGOL

Os nad yw'r cynigion a gyflwynir yn bodloni manyleb y tendr rydym yn cadw'r hawl i dynnu'r tendr yn ôl

Mae cyflenwyr yn gyfrifol am eu costau eu hunain wrth ymateb i'r tendr

Dylid cyfeirio cwestiynau sy'n ymwneud â'r broses dendro at Faye Hannah faye@ffilmcymruwales.com a rhaid eu derbyn erbyn 5pm dydd Llun 21ain Chwefror fan bellaf.

## DARLLEN YCHWANEGOL

Blaenoriaethau Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Cronfa Adnewyddu Cymunedol
Cronfa Ffyniant Gyffredin
Strategaeth Ddiwydiannol
Y Papur Gwyn Codi'r Gwastad
Cynllun a blaenoriaethau sgiliau Cyngor Casnewydd
Gwaith Sgrîn (Prifddinas-Ranbarth Caerdydd)
Arolwg Sgrîn Cymru (PDC Cymru-gyfan)

Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU.

Rhaglen Llywodraeth y DU yw Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU ar gyfer 2021/22. Nod y gronfa yw cefnogi pobl a chymunedau mwyaf anghenus y DU i dreialu rhaglenni a dulliau newydd o baratoi ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Mae'n buddsoddi mewn sgiliau, cymuned a lle, busnesau lleol, ac yn cefnogi pobl i sicrhau cyflogaeth. Am ragor o wybodaeth, ewch i'w gwefan yma.